OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1039 (Cy. 68)

# ARBED YNNI, CYMRU

## Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Diwygio) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *5 Ebrill 2000* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990(**1**), sydd bellach yn arferadwy yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn,

ystyr "Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref 1997(**3**).

**Diwygiadau i Reoliadau 1997**

**3.** Yn Rheoliad 5(1) o Rheoliadau 1997, yn lle "…not more than one…", rhowch "…one or more…".

**4.** Yn Rheoliad 6 o Reoliadau 1997 (Cyfrifo swm y grant) –

(1) Yn lle Rheoliad 6 (1) (a), rhowch –

"(a) in the case of a works application, the amount properly charged for the works or £500, whichever is the lower, and".

(2) Yn lle Rheoliad 6 (1) (b), rhowch –

(**1**) 1990 (p.27); diwygiwyd adran 15 gan adran 142 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p.53).
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).
(**3**) OS 1997/790.

"(b) in the case of a materials-only application, the amount properly charged for the materials purchased for and used in the works carried out, or £250, whichever is the lower."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywoxdraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis Thomas*
5 Ebrill 2000 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 (p.38).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Cynllun ar gyfer rhoi grantiau tuag at gost gwaith neu gyngor i wella inswleiddiad thermol, neu i leihau neu atal gwastraff ynni fel arall mewn anheddau, yw'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref presennol (“y Cynllun”).

Nodir y Cynllun yn Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref 1997 (“y prif Reoliadau”). Mae'r prif Reoliadau'n creu Asiantaethau Rhanbarthol i weinyddu'r cynllun, ac yn nodi pwy sy'n gymwys i gael grant. Mae'r prif Reoliadau hefyd yn rhagnodi'r math o waith a'r dibenion y gellir cymeradwyo grantiau ar eu cyfer. Darperir dull ar gyfer cyfrifo grantiau, a nodir yr uchafsymiau a all gael eu rhoi fel grantiau. Mae'r prif Reoliadau yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am grantiau a'u cymeradwyo, ac ar gyfer trefnu gwneud y gwaith neu gyflenwi'r deunyddiau.

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud o dan Adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 142 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996). Mae Adran 15(1) yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud, neu drefnu gwneud, grantiau tuag at gost gwaith neu gyngor i wella inswleiddiad thermol neu i leihau neu atal gwastraff ynni fel arall mewn anheddau. Ni all unrhyw grantiau gael eu gwneud o dan Adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 (“Deddf 1990”) ac eithrio yn unol â rheoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae rheoliad 3 yn newid y cyfyngiad ar y dibenion y gellir dyfarnu grant atynt o dan y prif Reoliadau o “…not more than one..” i “…one or more…” o'r dibenion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau.Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn darparu uchafsymiau newydd ar gyfer grantiau o dan y prif Reoliadau.